

Canolbwyntir ar werthuso'r camau dysgu ac addysgu nesaf yng nghyd-destun achos beirniadol yn y traethawd hwn a wnaed drwy arsylwadau ac adfyfyrdodau feirniadol. Dyweda Tripp wrth ddisgrifio achos beirniadol:

Critical incidents are produced by the way we look at a situation: a critical incident is an interpretation of the significance of an event. To take something as a critical incident is a value judgement we make.
(1993, tud. 125)

Arsylwyd ar sawl enghraifft o achosion critigol o ochor y dysgu ac ochor yr addysgu megis disgyblion yn tarfu ac yn dangos arferion ymddygiad negyddol, strategaethau a pholisïau cadarnhaol a negyddol, strategaethau cwestiynu ac arferion asesu ar gyfer dysgu, i enwi ychydig o'r hyn a arsylwyd arnynt. Yng ngoleuni hyn mae'r achos critigol a gyflwynir yn y traethawd hwn yn canolbwyntio ar ddisgybl yn tarfu o fewn wers gan wneud cysylltiadau ag llenyddiaeth yn ymwneud ag dysgwyr mwy 'abl a thalentog' (MATH), theori Bruner (1915) o sgaffaldio a strategaethau rheoli a disgyblu ymddygiad. Cymerid i ystyriaeth wrth adfyfyrio'r teimladau a deimlwyd yn ystod y broses arsylwi, y gallu i roi'r achos beirniadol yng nghyd-destun y wers, gwerthuso a dadansoddi'r hyn a welwyd ac ystyried casgliadau a chatau gweithredu nesaf y dysgu ac yr addysgu. Pwysleisir ar y gallu i fod yn feirniadol a'r gallu i gydnabod a gwerthuso wrth adfyfyrio a phwysig yw nodi yng nghyd-destun y traethawd hwn fod gennyf, fel arsylwr, gysylltiadau gyda'r ysgol a arsylwyd gennyf a bu i mi arsylwi ar wersi gan gyn athrawon i mi hefyd ac felly wrth adfyfyrio roedd rhaid ystyried tuedd yn fy arsylwadau wrth gynllunio'r traethawd hwn.

Daw wybodaeth am yr ysgol o'i hadroddiad Estyn a wnaed ym mis Ebrill 2019. Ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg ydy'r ysgol ar gyfer disgyblion rhwng un ar ddeg a deunaw oed a arsylwyd ar gyfer y traethawd. Mae'r ysgol wedi ei leoli yng ngogledd Abertawe ac mae rhyw 30.2% o ddisgyblion yr ysgol yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae yna tua 800 o ddisgyblion yn yr ysgol ac mae 110 o ddisgyblion yn y chweched ddosbarth. Gwelir fod 10.6% o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer cinio ysgol rad ac am ddim sy'n llai na'r canran cenedlaethol. Mewn cysylltiad gydag un o'r meysydd ymchwil posib ar gyfer y traethawd hwn mae 24% o ddisgyblion yr ysgol ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol sydd ychydig yn uwch na 22.9% yn genedlaethol. Ond yn debyg i'r ffigwr cenedlaethol mae 1.8% o ddisgyblion gyda datganiad anghenion addysg arbennig. Mae'r ystadegau yn ymwneud ag iaith y cartref yn ddiddorol wrth i mi adfyfyrio ar ôl arsylwi gwers Saesneg wrth gwestiynu: a oedd y disgyblion yn ymateb yn well i'r wers oherwydd cyfrwng iaith y wers? Mae'r adroddiad yn datgan fod dim ond 10% o ddisgyblion yr ysgol yn dod o gefndir a chartrefi cyfrwng Cymraeg. Ond serch hyn dywed yn yr adroddiad fod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg.

Wrth arsylwi rhaid cadw at ganllawiau BERA (British Educational Research Association):

The confidential and anonymous treatment of participants' data is considered the norm for the conduct of research. Researchers should recognise the entitlement of both the institution and individual participants to privacy. (2018, tud. 21)

Arsylwyd cyfanswm o ddeuddeg wers, 50 munud o hyd yr un dros gyfnod o ddau ddiwrnod. Ym mhob gwers roedd oddeutu 25-32 o ddisgyblion. Yn achos y rhan fwyaf o rain roeddent yn gymysg o ferched a bechgyn ond o fewn un wers a arsylwyd roedd y wers â merched yn unig. Arhoswyd yng nghefn yr ystafell gan amlaf wrth geisio osgoi ymyrryd neu amharu ar y dysgu. Gelwir hyn yn 'non-participant observation'. Yng nghyfrol Kumar disgrifir fod y math yma o arsylwr yn "passive observer, watching and listening to its activities and drawing conclusion from this" (2014, tud. 174). Ar adegau gwelwyd hyn yn heriol wrth i'r athro/rawes fy nghymell i ymuno yn y wers a chwestiynu'r disgyblion. Anodd oedd gwneud arsylwadau gan ddilyn y model taflen nodiadau yn yr achosion yma gan ymyrryd yn dysgu'r disgyblion o fewn y gwersi. Cyfeiriwyd hefyd at yr 'Hawthorne effect' a bwysig yw cydnabod hyn wrth werthuso ac adfyfrio ar yr arsylwi. Disgrifir yr effaith yma fel "when individuals or groups become aware that they are being observed, they may change their behaviour. Depending on the situation, this change could be positive or negative"(Kumar, 2014, tud. 174).

Ystyriwyd sawl dull o arsylwi gan ddefnyddio cyfuniad o rai. Defnyddiwyd taflenni nodiadau arsylwi yn bennaf gan ddilyn canllaw Fletcher-Wood o'i gyfrol *Ticked Off*. Mantais y dull yma o arsylwi yw'r gallu i gadw cofnod a threfn eithaf manwl o'r hyn a arsylwyd. Tueddais i wneud cofnodion bras yn ystod y cyfnod arsylwi gan lenwi'r taflenni'n gywir wedi'r wers. Y rheswm pennaf am wneud hyn oedd cyfyngder y categorïau a oedd ar y daflen ac yr angen i ddidoli gwybodaeth i'w manau cywir. Gellir dadlau mae anfantais yw'r elfen yma wrth gwestiynu natur gaeedig y categorïau, gan arwain at feddylfryd caeedig wrth arsylwi gan edrych yn benodol am y wybodaeth sydd ei angen i lenwi'r blychau yn unig.

Dywed Leung a Silberling, "Sociograms can supplement teacher observations to promote a positive learning environment for all students" (2006, tud. 57). Nid yw'r defnydd o sosiogramau yn gyfredol gyda natur amgylchedd yr ystafell ddosbarth mewn ysgolion uwchradd. Yn ran fwyaf o'r wersi a arsylwyd gwelir naill ai cynllun eistedd neu osodiad set i fyrddau yn y dosbarth. O ganlyniad i hyn nid yw disgyblion yn dueddol o grwydro rhyw lawer ac os oeddent yn y cyfathrebu roedd hyn naill ai gyda'r athro, y disgybl gyferbyn a hwy neu os oedd yna dasg grŵp. Er hyn wrth edrych ar safle'r athro o fewn gwersi amrywiais y dull at ddibenion mapio pwy oedd yr athro yn cwestiynu mewn gwersi a oedd yn defnyddio'r dechneg llaw i fyny (Gwelir atodiad 3).

Yn ôl Joshi, "Analysis of critical incidents helps teachers know more about how they teach... question their own teaching practice which enables them to develop professionally" (2018, tud. 84). Cysylltir astudiaeth achos ag achosion beirniadol yn aml. Diffinnir astudiaeth achos yn ôl Cohen, Manion a Morrison fel "a specific instance that is frequently designed to illustrate a more genral principle" (2000, tud. 181). Yn eu cyfrol *Research Methods in Education* (2000, tud. 184), cyfeiriwyd at gryfderau a gwendidau astudiaethau achos yn ôl Nisbet a Watt (1984). Dywed cryfderau astudiaeth achos yw ei naws anacademaidd. Cofnodwyd astudiaethau achos fel arfer yn iaith bob dydd sydd yn galluogi i ystod eang o bobl i'w ddeall. Y prif fantais iddynt yw ei bod yn darparu ymchwiliad fanwl sydd yn gallu canolbwyntio ar elfennau a fydd, o bosib, yn cael ei golli o fewn data ar raddfa fwy. Gallent fod yn ffynhonnell hynod ddefnyddiol i ddeall sefyllfa yn well. Rhaid bod yn wylidwrs wrth ei darllen oherwydd ei anfantias mwyaf yw nad ydynt o reidrwydd yn cael ei chroesgyfeirio ag deunydd arall gan gadael lle i dueddiad, meddylfryd dewisol ac agweddau personol a goddrychol ynddynt.

Amlinellwyd y pedwar diben ar sail cyflwyno'r cwricwlwm newydd yng Nghymru gan yr athro Donaldson yn y ddogfen *Dyfodol Llwyddiannus* (2015). Yn eu cyd-destun mae yna nodweddion allweddol llawnach o'r hyn sydd yn dod o dan y pedwar diben ond yn fras y pedwar diben yw creu dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gyfranwyr mentrus a creadigol, yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus ac yn unigolion iach, hyderus. Yr achos beirniadol a ffocysir arno yn y traethawd hwn yw plentyn yn tarfu yn y wers. Gwelir nodiadau manylach yn dilyn awgrymiadau Fletcher-Wood (2016, tud. 184) fel atodiad 2.

Edrychir yn gyntaf ar y nodweddion allweddol i fod yn ddysgwr uchelgeisiol a galluog. Cwestiynir os oedd Plentyn 4 yn ddisgybl MATH. Gellir honni nad yw'r disgybl yn gosod safonau uchel i'w hunan ac nac yw'n chwilio am heriau nac yn eu mwynhau, felly sut ydym yn gallu creu'r unigolyn yma yn un uchelgeisiol? Er hyn roedd dwy elfen o'r nodweddion allweddol yn gymwys at y disgybl yn yr achos beirniadol sef roedd ganddo'r gallu i egluro'r syniadau a chysyniadau y roedd yn dysgu amdanynt yn y wers a arsylwyd. Roedd gan y disgybl hefyd y gallu i ddeall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol yn ôl cyd-destun y wers wyddoniaeth ar gyfer blwyddyn naw set un, sef y garfan gallu uwch neu gryfaf o fewn y pwnc yn y flwyddyn.

Wrth ystyried dibenion eraill y cwricwlwm newydd fedrir cwestiynu os oedd y disgybl yn barod i chwarae ei ran yn llawn yn ei bywyd a'i gwaith. Nad oedd Plentyn 4 yn dangos unrhyw fath o gymhelliant i gymryd cyfrifoldeb dros ei waith ei hun ac felly nad oedd yn cwrdd â nodweddion allweddol cyfrannwr mentrus, creadigol eto. Yn ogystal gellir dweud nad oedd yn wynebu heriau a'u trechu oherwydd nad oedd yn cael ei herio yn y wers. Felly

os nad oedd y disgybl yn cael ei herio yn y lle cyntaf sut fedrir disgwyl iddo fod yn unigolyn hyderus os nad yw'n cael profi'r profiadau angenrheidiol i fagu'r hyder yna?

Roedd Plentyn 4 yn tarfu drwy'r wers, enghraifft o'i darfu a wnaeth effeithio ar ddysgu ei gyd-ddisgyblion oedd mynd i fyny i'r bwrdd gwyn gan ddweud yr atebion i gyd gan wneud sylwadau fod y gwaith yn syml. Mae hyn y gwrthgyferbynnu gyda'r diben o fod yn ddinesydd egwyddorol a gwybodus oherwydd nad oedd yn deall nac yn ystyried effaith ei weithredoedd wrth ddewis a gweithredu. Gellir ddweud nad oedd wedi meddwl trwy'r camau gweithredu ac effaith ei weithredoedd ar weddill y dosbarth. Pwysleisia Donaldson yn yr adroddiad fod rhaid "amlygu'r diben drwy ymarfer" (2015, tud. 29). Ac felly rhaid ystyried bod y disgyblion a arsylwyd o hyd yn datblygu o fewn y dibenion yma a'r gobaith yw datblygu'r dibenion ar hyd y chwe maes dysgu a phrofiad yn y cwricwlwm newydd.

Canolbwyntia'r rhan nesa'r traethawd ar gysylltu llenyddiaeth gyda'r achos beirniadol. Soniwyd uchod am gwestiynu os oedd Plentyn 4 yn ddisgybl MATH. Trafodir gan Wallace a Donnelly mathau o ddisgyblion a gelwir yn "able but disaffected pupils" (2004, tud. 46). Dywed dyma ddisgyblion sydd yn datblygu patrymau ymddygiadol hir dymor sy'n negyddol ac yn aflonyddgar. Roedd Plentyn 4 yn dangos gallu cryf iawn yn y wers ac yn aml yn gorffen ei dasgau o fewn munudau yn hollol gywir. Ond o ganlyniad i orffen y gwaith cyn ei gyd-ddisgyblion roedd Plentyn 4 yn aflonydd iawn wrth aros i eraill gorffen. Disgrifiad a rhoddwyd gan Wallace a Donnelly yw, "they may be impatient, critical, rude and insolent, apparently easily frustrated and lacking in kindness to others" (2004, tud. 46). Drwy dargedu'r disgybl a'i arsylwi drwy'r wers roedd yn aml yn ymateb yn negyddol i'w gyd-ddisgyblion ac yn ddiamyneddgar drwy'r wers sydd yn cyd-daro'n agos iawn at ddisgrifiad Wallace a Donnelly (2004, t.46) o'r fath yna o ddisgyblion. Yn ôl yr un ddogfen, o dan 'Subject specific checklist', dywed o dan y pwnc gwyddoniaeth, "Recognise patterns and relationships in science data: can form a hypothesis based on valid evidence and draw conclusion [a] use subject vocabulary effectively in construction of abstract ideas" (Wallace a Donnelly, 2004, tud. 50). Yn y wers roedd Plentyn 4 gallu gweld a dangos dealltwriaeth o gyflwyno'r ffurf safonol a defnyddio geirfa prawf geiriau i gyflwyno a strwythuro casgliadau.

Mae nifer yn dadlau yn erbyn gosod disgyblion ym MATH, yn enwedig wrth feddwl bod disgwyl i ni herio bob disgybl nid y rhai 'abl' yn unig. Ceir dadl ar sut mae diffinio mwy 'abl a thalentog'? Ceir datganiad ei gyflwyno gan Donnelly a Scott "There is no universally agreed definition of those learners who generally would be considered more able than their peers" (2009, tud. 81). Yn ogystal ategir fod y term fwy 'abl a thalentog' yn cwmpasu dysgwyr sydd â mwy o allu ar draws y cwricwlwm gan hefyd dangos talent a chryfder mewn sawl maes arall megis arweinyddiaeth, gwaith tîm a sgiliau entrepreneuriol. Dywed gan Maitra y

problemau sydd yn codi gyda'r mwy 'abl a thalentog' yw diffinio'r term a hefyd ym mha feysydd yr ydym yn canfod y dawnus (2000, tud. 296). Diddorol yw casgliadau Allison a Tharby ar her a herio, "It is unfortunate that all too often challenge is presented in the context of 'challenging the most able'" (2015, tud. 14). Yn eu cyfrol, *Making every lesson count*, maent yn cyfeirio at sawl feddylfryd wrth ddysgu sef, "comfort zone, struggle zone and panic zone" (2015, tud. 6). Cyfeirir yn y gyfrol at waith Carol Dweck ar feddylfryd, gan ganolbwyntio ar feddylfryd twf a meddylfryd gosodedig. Mae rhaid cefnogi rhai sydd yn osodedig ei meddylfryd gan gynnig her iddynt er mwyn llwyddo. Felly yn achos Plentyn 4 os mae'r disgybl yn disgyn o dan ddamcaniaeth Wallace a Donnelly (2014) o 'abl but disaffected pupil' ac nad yw'n cael ei gategoreiddio fel disgybl MATH, oni ddylai rhoi'r gefnogaeth iddo er mwyn dangos ei botensial yn llawn? Mae'n dra bosib fod y disgybl hefyd yn ôl damcanith Wallace a Donnelly wedi dysgu "to coast through the school system, doing the minimum required- just enough to get by" (2004, tud. 45). Er nad oedd yna wybodaeth yn profi fod Plentyn 4 yn tangyflawni mewn unrhyw ffordd, os nad yw'n cael ei herio mae'n bosib yn yr hir dymor iddo golli diddordeb yn gyfan gwbl yn y pwnc gan arwain at dangyflawniad.

Maes cysylltiedig posib arall yw'r elfen o ddisgyblu, gan ganolbwyntio ar strategaethau a pholisïau ymddygiadau ac ymateb y disgybl iddynt. Yn ôl dogfen *Positive behaviour management* gan y National Education Union (NEU) (2018, <https://neu.org.uk/>), awgrymir bod angen cadw disgyblion ar dasg er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ymddygiad negyddol. Dywed gan NEU wrth osod tasgau annibynnol neu grŵp gellir disgyblion ei weld fel cyfle i siarad â cham bihafio. Dyma strategaeth posib i leihau ymddygiad aflonyddgar Plentyn 4. Dywed "to encourage them to stay on task, you could: provide a choice of two or three tasks, this may help if the reason for disengagement is boredom with the set task" (NEU, 2018, <https://neu.org.uk/>, tud. 13). Er ffocysa'r traethawd ar Plentyn 4 yn tarfu roeddwn wedi ei arsylwi am 50 munud o wers ac felly wedi gweld trawsdorriad o'i ymatebion i waith ac i'r athro. Roedd Plentyn 4 yn hynod frwdfrydig i wneud ei waith ac yn sicr pan oedd ar dasg nad oedd yn tarfu nac yn tynnu sylw mewn ffordd negyddol. Serch hyn wrth aros i'w gyfoedion gorffen roedd ei ymddygiad yn troi'n aflonyddgar ac felly byddai cyflwyno tasgau ychwanegol o fudd yn sefyllfa disgyblu disgyblion fel Plentyn 4.

Awgryma Bruner (1915) gallwn ddefnyddio disgyblion mwy 'abl' i gynorthwyo yn yr addysgu. Dyweda Kate Beith yn *Children and Young People's Workforce*, "Key term- Scaffolding- the process where adults or other more competent peers build on children's existing knowledge and skills" (2012, tud. 21). Roedd Plentyn 4 wedi dangos dealltwriaeth o'r hyn yr oedd yn gwneud ac felly o bosib fyddai defnyddio damcaniaeth Bruner yn y wers o fudd i'r athro, i'r disgybl 'abl' ac i'w gyd ddisgyblion o fewn y wers. Cysyllta hyn gyda'r syniad o gadw

disgyblion aflonyddgar ar waith, ac mae'n dra bosib os oedd y disgybl 'abl' yn cael fwy o ran yn y broses addysgu fydd hyn yn cynnig her iddynt, ond hefyd yn galluogi iddynt ddefnyddio ei alluoedd at rywbeth ehangach.

Wrth gyflwyno polisiâu ymddygiad pwysig yw ystyried cyflwyno strategaethau atal a rhwystro a chanlyniadau i ymddygiad heriol a negyddol. Cyfeiriwyd at hyn gan wefan Teacherhead wrth drafod strategaethau Bill Rogers (2013) wrth gyflwyno 10 uchaf yng nghyd-destun rheolaeth ymddygiad. Crëwyd y dosbarth 'siarter dosbarth' a oedd yn gofyn i ddisgyblion ac athrawon gyfrannu gan osod disgwyliadau ar ran disgyblion, yr athro a disgwyliadau ar ran pawb a oedd yn yr ystafell ddosbarth ai osod o fewn diagram Venn. Roedd gan bob disgybl copi o'r siarter a hefyd roedd un wedi ei argraffu a'i rhoi ar wal ym mlaen yr ystafell. Mae hyn yn cyd-daro'n berffaith gyda'r hyn a dywed gan Rogers am rwystro ymddygiad negyddol, "planning for good behaviour; teaching the routines and the rules" (2013, (<https://teacherhead.com/>)). Mae gan yr ysgol a arsylwyd hefyd polisi pum cam sy'n cael ei weithredu ar draws yr ysgol sef 'Atgoffa, Rhybudd, Rhybudd terfynol, Amser allan ac Ar Alwad'. Mae'r polisi yma yn rhoi amser i ddisgyblion adfer ei ymddygiad heriol neu negyddol wrth osod llwybr a chanlyniadau clir i'r weithred: "Consequences: have clear structure that students understand and use to inform the choice they make" (2013, (<https://teacherhead.com/>)).

Awgryma Kounin a Gump fod yna berthynas rhwng y dechneg disgyblu a rheoli ag ymateb y disgyblion. Canolbwyntia'r erthygl (1958, tud. 159), ar dair techneg sef eglurder, cadernid a garwedd. Cysyllta'r gwahanol dechnegau gydag ymateb disgyblion iddynt. Yn ôl Kounin a Gump wrth gyflwyno ag eglurder roedd disgyblion yn ymateb gyda:

special effort to be good. They stopped a misbehaviour of their own, sat up taller, paid closer attention to the lesson, or tried in some other way to show that they were not misbehaving. These reactions were grouped under 'conformance'. (1958, tud. 159)

Gelwir hyn yn 'the Ripple effect', sef bod gweithredoedd o fewn yr ystafell ddosbarth yn cael effaith ar bob un yn yr amgylchedd hynny ar yr amser hwnnw. Dull effeithiol gan yr ysgol a arsylwyd oedd y polisi pum cam a hefyd strategaeth 'ysgwydd i ysgwydd'. Gwelwyd wrth i'r athro gostwng i lefel y disgybl a chynnal deialog gyda'r disgybl ar y camau gweithredu roedd yr allbwn hynod fwy effeithiol a chadarnhaol.

Wrth ystyried disgyblion ag ymagweddau ac agweddau negyddol neu heriol at waith ac yn yr ystafell ddosbarth rhaid sicrhau strategaethau clir sydd yn cynnwys y disgybl er mwyn sicrhau allbynnau llwyddiannus. Dyweda Kounin a Gump (1958) yn 'The Ripple Effect in

Discipline' rhaid ystyried y dechneg rheoli, ymateb y plant i'r dechneg, ac effaith y gosodiad. Wrth ddisgyblu rhaid rhoi ystyriaeth fanwl i'r strategaeth:

It is clear that a ripple effect does exist. What a teacher does to control children's behaviour affects the children who watch as well as the children who are corrected. (Kounin a Gump, 1985, t.161)

Rhaid cydnabod mae gwers ond ychydig o wythnosau i mewn i'r flwyddyn academaidd newydd a arsylwyd ac mae'n cymryd amser i ddatblygu'r strategaethau cywir gyda'r dosbarth cywir, gyda'r disgyblion cywir ac felly rhywbeth dros amser yw'r datblygiad hwnnw.

Wrth adfyfrio ar y broses arsylwi defnyddiwyd y model beirniad wedi adfyfrio (BWA). Yn ôl y model yma rhaid ystyried ac adfyfrio ar deimladau yn ystod y profiad o arsylwi, cofio a deall gan roi elfennau'r achos yng nghyd-destun y wers, gwerthuso a dadansoddi gan ystyried yr hyn a gellir ei gadw'r un fath er mwyn sicrhau addysgu a dysgu effeithiol, ac yn olaf cynnig casgliadau a chmau nesaf gan gynnig ymatebion posibl i'r achos a ffocyswyd arno. Pwysig yw cofio canllawiau moesegol wrth awgrymu camau nesaf ac nid beirniadu. Er i Plentyn 4 darfu ar y wers roedd yn dangos y gallu i egluro i eraill sut oedd gwneud y dasg, er mewn modd braidd yn nawddoglyd ac nid adeiladol. Nid oedd Plentyn 4 yn teimlo ei fod yn cael ei herio yn y wers gan yn aml gwyno ar arafwch ei gyd-ddisgyblion i orffen tasgau yr oedd ef yn ei ystyried ac yn eu galw'n hawdd neu'n syml. Felly ystyriwyd mai o ganlyniad i'w ddiflastod a'i agwedd ddiamynedd yr oedd yn tarfu ac yn dangos ymagwedd ac agwedd negyddol at waith ac at eraill yn ystod y wers. Roedd y wers yn bwnc craidd ac roedd y disgybl yn set 1 sef carfan gallu uchaf y flwyddyn yn y pwnc. Ac felly o bosib nad oedd y disgybl yn gweld y wers yn ddefnyddiol iddo oherwydd roedd yn deall yr hyn a oedd yn cael ei gyflwyno. Serch hyn rhaid ystyried cyd-destun y wers, a gwers adolygu ac ail ymweld oedd honno.

Rhoddir y prif bwyslais ar wahaniaethu, ymestyn a datblygu disgyblion 'abl' o fewn gwersi. Strategaeth posib ar gyfer hyn yw cynllunio tasgau ychwanegol sy'n cynnig her ehangach i'r disgyblion hynny, fel Plentyn 4, sy'n gorffen gwaith papur angenrheidiol yn gynt. O bosib wedyn, fel canlyniad cadarnhaol, fe fydd lleihad mewn ymddygiad heriol ac aflonyddgar yn y disgybl yn yr ystafell ddosbarth. Yr hyn a awgrymir yw cadw disgyblion fel Plentyn 4 ar waith drwy'r wers, boed yn ysgrifenedig, yn darllen neu'n dasg ar lafar megis trafodaeth drwy gwestiynu i wthio dealltwriaeth yr unigolyn. Nid oes rhaid o reidrwydd sicrhau tasgau ychwanegol. Strategaeth posib mae rhai ysgolion wedi mabwysiadu yw cynllun 'Mêts Meddwl' yn ôl damcaniaeth Bruner (1915) o sgaffaldio. Er mae strategaeth a welir gan ysgolion cynradd yw hyn ar y rhan fwyaf, gellir honni fod y strategaeth yma dal o fudd mewn sefydliadau uwchradd. Nid yn unig fydd hyn yn herio ac yn datblygu'r unigolyn fwy 'abl' i gael

fwy o fewnbwn ar yr ochor addsygegol ond hefyd o fudd i ddisgyblion eraill yn y dosbarth sydd o bosib yn is ei gallu yn y pwnc. Gwelir enghraifft wych o wahaniaethu serch hyn yn y wers. Gosodwyd gwaith cartref yn ôl lliwiau goleuadau traffig gyda bob taflen yn cynnig fwy neu lai o gyfarwyddiadau arweiniol i orffen y tasgau. Dewis y disgybl oedd pa daflen roeddent am ei gyflawni a'i chyflwyno. Gwnaethpwyd hyn mewn modd sensitif gan roi'r tair taflen i bob disgybl gan adael iddynt hwy wneud y dewis yn ei amser ei hun ac nid o flaen y dosbarth.

O bosib fod angen creu a sicrhau gweithrediad clir ar strategaethau disgyblu a thawelu. Awgrymir fel cam nesaf gyflwyno strategaeth a oedd yn mynd i'r afael a thawelu disgyblion yn gynt a chynnal ffocws disgyblion ar yr athro wrth iddo gyflwyno'r wers a chyflwyno yn ystod y wers. Rhaid oedd ystyried nad oedd yr athro wedi bod yn dysgu'r dosbarth am gyfnod hir, ac fel nodwyd uchod rhaid datblygu'r strategaethau yma dros amser cyn gweld ei effeithlonrwydd a hefyd un wers a arsylwyd a rhaid, wrth adfyfrio, ystyried mewnbynau ac allbynau eraill nad oedd yn amlwg o fewn yr ystafell ddosbarth megis amgylchiadau cymdeithasol a phersonol. O bosib nad yw Plentyn 4 yn dangos y fath nodweddion ymddygiadol fel arfer. Ac o bosib fod y strategaeth anwybyddu ar waith yn y wers fel mae Bill Rogers yn awgrymu, "Some attention-seeking behaviour can- in the short term- be *tactically* ignored" (2011, tud. 173).

Mae'n hynod o bwysig wrth adfyfrio i'w rhoi yng nghyd-destun eich datblygiad proffesiynol a phersonol eich hun. Ond hefyd fel awgryma Brookfield (1998) mae'n bwysig ystyried agweddau arall wrth adfyfrio. Gwelir y rain gan Brookfield yn 'Critically reflective lenses' (1998, tud. 198-200), sy'n cynnwys ein safbwynt ni fel ymarferwyr, safbwynt ein dysgwyr, safbwyntiau a phrofiadau ein cyd-weithwyr ac yn olaf safbwyntiau theorïau a llenyddiaeth. Mae'r ddogfen yn awgrymu mae'r brif fantais wrth adfyfrio yw'r gallu i ddarganfod ac i ddatrys unrhyw anghenion nad sy'n cael ei gwrdd. Dyweda Brookfield:

A critically reflective practitioner can stand outside her practice and see what she does from a wider perspective... It grounds practitioners in a moral, intellectual, and political project and gives them an organizing vision of what they are trying to accomplish.
(1998, tud. 204)

I grynhoi mae'r traethawd hwn yn canolbwyntio ar arferion aflonyddgar disgybl mewn gwrs graidd, gan ei gysylltu â theorïau a llenyddiaeth sy'n ymwneud â disgyblion MATH, gan hefyd edrych ar rôl sgaffaldio (Bruner, 1915), a strategaethau ymddygiad a disgyblu. Gwnaed hyn drwy broses o arsylwi gan ddefnyddio canllaw Fletcher-Wood (2016) i greu nodiadau arsylwi ac adfyfrio ar yr arsylwadau hynny drwy ddefnyddio model BWA sydd yn dilyn cylchred

adfyfyriol Gibbs (1998). Mae adfyfyrio yn chwarae rôl hanfodol yng nghyd-destun y safonau proffesiynol newydd yng Nghymru sy'n adlewyrchu gofynion y Cwricwlwm Newydd (Donladson, 2015). Dywed ar wefan HWB Llywodraeth Cymru, "Mae'r pum safon broffesiynol ar gyfer ymarferwyr ysgolion yn gweithio fel un i sicrhau addysgeg effeithiol gyda gwerthoedd ac ymagweddau cyffredin" (2019, (<https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/>)). Nodir hanfodrwydd adfyfyrio yn unigol ac ar y cyd yn erbyn y safonau hyn er mwyn ymgysgu ag arferion effeithiol o addysgu. Y pum safon sy'n bwydo arferion addysgeg effeithiol yw addysgeg, arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, arloesi a chydweithredu a chysylltir y rhain gan werthoedd ac ymagweddau'r ymarferwr. Wrth ystyried y pum safon yma mae pwysigrwydd cynllunio, gweithredu a chynnal ffocws clir arnynt yn galluogi i ymarferwr ddatblygu'n broffesiynol er mwyn sicrhau ansawdd addysgu a dysgu da ac effeithiol sydd yn cyd-daro ag egwyddorion Donaldson (2015) yn nrafft y cwricwlwm newydd. Dyweda Fook am adfyfyrio:

it is important to emphasize these two aspects of the critical reflection process- analysis and change. In the process the learner is effectively researching their own practice and developing their own practice theory directly from their own experience. (2015, tud. 446)

Wrth symud ymlaen fe fyddaf yn rhoi ystyriaeth i'r safonau proffesiynol wrth adfyfyrio gan sicrhau rhoi ystyriaeth i'r pump, oherwydd mae'r pum safon yn plethu oddi fewn i'w gilydd er mwyn sicrhau canlyniadau llwyddiannus ac effeithiol.

Llyfryddiaeth:

Allison, Sh. a Tharby, A. (2015) *Making every lesson count: six principles to support great teaching and learning*. England: Crown House Publishing.

BBC Sounds (2009) *Mind Changers: The Hawthorne Effect*. Ar gael yn:
<https://www.bbc.co.uk/sounds/play/b00lv0wx> (Darllenwyd: 10 Hydref 2019).

Beith, K. (2012) 'Extending understanding of theories of children and/or young person's care or development', yn Taylor. W. (gol.) *Children and Young People's Workforce*. Harlow: Pearson.

British Education Research Association [BERA] (2018) *Ethical Guidelines for Educational Research*. 4ydd Arg. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethicalguidelines-for-educational-research-2018> (Darllenwyd: 10 Hydref 2019).

Brookfield, S. (1998), 'Critically Reflective Practice', *The Journal of Continuing Education in the Health Professions*, 18(4), tud. 197-205.

Cohen, L. a Manion, L. a Morrison, K. (2000) *Research Methods in Education*. 5ed Arg. New York: Routledge.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Cymru: Llywodraeth Cymru.

Donnelly, V. a Scott, V. (2009) 'a rising tide...meeting the needs of more able and talented learners in years', *Gifted Education International*, 25(1), tud. 81-85.

ESTYN (2019) Adroddiad ESTYN yr ysgol a arsylwyd. Ar gael yn:

<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/████████████████████.pdf> (Darllenwyd: 24 Medi 2019).

Fletcher-Wood, H. (2016) *Ticked Off: Checklists for Teachers, Students and School leaders*. Caerfyrddin: Crown House Publishing.

Fook, J. (2015), 'Reflective Practice and Critical Reflection, yn *Handbook for Practice Learning in Social Work and Social Care: Knowledge and Theory*. 3ydd Arg. London: Jessica Kingsley Publishers.

HWB Llywodraeth Cymru (2019), *Safonau Proffesiynol*. Ar gael yn:
<https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/> (Darllenwyd: 17 Hydref 2019).

Joshi, K. R. (2018), 'Critical Incidents for Teachers' Professional Development', *Journal of NELTA*, 5, tud. 82-88.

Kounin, J. S. a Gump, P. V. (1958), 'The Ripple Effect in Discipline', *The Elementary School Journal*, 59(3), tud. 158-162.

Kumar, R. (2014) *Research Methodology: a step-by-step guide for beginners*. 4ydd Arg. Los Angeles: SAGE.

Leung, B.P. a Silberling, J. (2006) 'Using Sociograms to Identify Social Status in the Classroom', yn *California School Psychologist*. California: CASP.

Maitra, K. (2000) 'Identification of the gifted- some methodological issues', *Gifted Education International*, 14(3), tud. 196-301.

National Education Union (2018) *Positive Behaviour Management*. Ar gael yn: <https://neu.org.uk/media/32/view> (Darllenwyd: 24 Medi 2019).

Rogers, B. (2011) *Classroom Behaviour: a practical guide to effective teaching, behaviour management and colleague support*. 3ydd Arg. London: SAGE.

Sherrington, T. (2013) *Behaviour Management: a Bill Rogers Top 10*. Ar gael yn: <https://teacherhead.com/2013/01/06/behaviour-management-a-bill-rogers-top-10/> (Darllenwyd: 24 Medi 2019).

Tripp, D. (1993) *Critical Incidents in Teaching*. USA: Routledge.

Wallace, B. a Donnelly, V. (2004) 'A curriculum of opportunity: developing potential into performance', *Gifted Education International*, 19(1), tud. 41-66.

Atodiad I

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019
Manylion y wers: Gwers 1+2 (9:00-10:40, gwers ddwbl) Addysg Gorfforol, blwyddyn 9. Roedd tua 23 disgybl, benywaidd yn unig, yn y wers. Lleoliad: Gampfa Cyfeiriannu (Oreintation). ** Ffonau symudol yn y bocs cyn mynd i mewn i'r ystafell newid.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) • Cyn gadael yr ystafell newid , Athrawes yn egluro'r adnoddau maent angen ar gyfer y wers- Plant yn gwybod beth sydd angen arnynt ar gyfer dysgu **Strategaeth Disgyblu- Cyfri yn ôl o 4 am dawelwch, bys ar ei gwefus (Di-eiriau) • Esbonio'r dasg gan dangos enghraifft cyn dosbarthu taflenni. • Disgyblion i gyd yn edrych a gwranddo ar yr Athrawes • Pawb yn cymryd rhan yn y wers boed gyda chit ai peidio • Athrawes yn esbonio sut y maent yn dysgu a beth.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) •Atgyfnerthu amcanion y wers gan gyfeirio yn ôl at y wers flaenorol •Mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas o ddatblygiad datrys problemau drwy: - Sgiliau darllen map, a sgiliau gwerthuso (Ymateb i'r dymuniad). •Atgyfnerthu amcanion y wers: Cymreictod/Gwranddo/Dim Tarfu/Parch •Clir a phwrpas penodol •Disgyblion yn cael cyfle i holi a chwestiynu er mwyn sicrhau dealltwriaeth. ** Cyflwyno amcanion y wers nesaf: Tasg debyg ond lefel uwch (gwahaniaethu)
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) •Athrawes yn dangos yr hyn sydd angen gwneud er mwyn bod y plant yn gwybod beth i wneud- a sut i'w wneud yn llwyddiannus.

- Defnyddio disgyblion i ailadrodd ac arddangos cyfarwyddid. E.e. Dangos sut i ddal a defnyddio'r map yn gywir.
- Athrawes yn datgan ei disgwyliadau
- Cyn eu gwahanu- esbonio trefn y wers eto:
 - 1 map+1 taflen/gwirio/gwerthuso
- Gofyn a gwirio bod pawb yn glir
- Rhannu i grwpiau o 3/4 (dewis disgyblion)
- Bwriad cyfeiriannu yw datblygu sgiliau datrys problemau

Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

- Ymateb yn bositif/niwtral i atebion disgyblion
 - Herio wrth geisio gofyn iddynt ymhelaethu ar ei ateb/ion.
- Gofyn sawl unigolyn i ateb
 - Gofyn a oedd rhywun arall eisiau cyfrannu neu roi cynnig cyn rhoi ateb neu esboniad.
- Pawb yn gwneud yr un dasg (Hyd yn oed disgyblion heb git)
- Athrawes "Rhaid hyderus ffeindio'r rhifau... Rhaid ohonoch eisiau dod yn ôl i wirio... Mae'n iawn i chi wneud e unrhyw ffordd"
- Gwers nesaf: amser (Her nesaf)

Asesu (Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?)

- Gwersi cyfeiriannu: Hunan werthuso a gwerthuso fel grŵp
- Asesu Ffurfiannol: 2 seren a dymuniad
- Holi am ei gwerthusiadau
- Cwestiynu os nad oedd pethau/agwedd yn llwyddiannus
 - “Da iawn am adnabod y broblem... Sut gallwch chi wella?”
- Rhannu gwerthusiadau grŵp gyda'r dosbarth
 - Cwestiynu-Beth? Pam?
- Cwestiynu sy'n arwain
- Atgyfnerthu trwy roi'r dymuniadau yng nghyd-destun y wers nesa'.
- Un grŵp wedi dechrau datblygu ar ddymuniad o'r wers flaenorol
 - Trafod strategaethau gwahanol i wella hyd yn oed y fwy.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?
Plentyn 1:

- Ymateb yn Saesneg er yn siarad Cymraeg iddi.
- Neb eisiau iddi fod y neu grŵp
- Nad oedd yn ceisio cyfathrebu ag eraill
- Athrawes yn gwirio os bod hi'n hapus
- Ar garden ymddygiad.
- Ond parod iawn i gymryd rhan
- Gorwedd lawr, colli diddordeb pan oedd rhywun esbonio'r dasg/cyfarwyddiadau
- OND- Gorffen tasg gychwynnol
- Athrawes yn rhoi tasg arall iddi- cadw diddordeb+ ymagwedd bositif
- Falch bod hi wedi cwblhau'r dasg yn gywir
- Lleihau agwedd negatif wrth roi hi ar waith

Plentyn 2:

- Iaith gorfforol fewnblyg.
- Heb gyfathrebu yn ystod y wers
- er yn eistedd â phobl
- golwg/mynegiant trist
- Dim diddordeb yn ei chyfoedion wrth iddynt rannu gwerthusiadau
- Edrych lawr
- Llaw ar ei phen
- Ond eto gyd grŵp yn ei chydabod os oeddent eisiau iddi wneud rhywbeth e.e. mynd ar daflen i'r athrawes.
- Athrawes yn atgoffa am Gymreictod 7 gwaith yn ystod hanner awr gyntaf y wers.
- Strategaethau disgyblu a thawelu
- Plant yn deall y sgiliau
- Mynd yn haws wrth ail wneud yn wythnosol
- Datblygu ar dargedau
- Athrawes yn cylchdroi
- Sefyll ger grŵp oedd yn tarfu
- Rhoi manylion a disgwyliadau ar gyfer y wers nesaf.

** Anodd arsylwi: Plant ar wasgar (Tu allan, iechyd a diogelwch methu mynd allan)

Atodiad II

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019
Manylion y wers: Gwers 4 (11:50-12:40 ,gwers cyn cinio) Gwyddoniaeth, blwyddyn 9 Set 1. Lleoliad: Ystafell ddosbarth nid Labordy Gwers profi'r hyn maent wedi gwneud
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) •Llawer o darfu •Criw lleisiol iawn •Rhai yn barod ac yn dangos parodrwydd i ddysgu •Ond roedd pawb yn ymddangos yn barod i gymryd rhan yn y wers.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) •Pwrpas Clir- Cwestiynu wrth ddefnyddio terminoleg -Athro yn esbonio'r tasgau •Tasgau ffurfiannol e.e.. prawf sillafu terminoleg, cwis bach •Defnydd o fflach gardiau A/B/C/ •Athro' roi tasg mewn cyd-destun bydol -e.e.. Bwlb: effeithlonrwydd -Cynhesu byd eang -Gwastraff ** Pedwar Diben Donladson
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) •Athro'n torri'r wers i lawr i ddarnau a thasgau •Esbonio bob rhan •Esbonio wrth iddynt gerdded i mewn e.e angen Estyn llyfrau gwaith •Dewis dyfais dewis enw
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?)

• Gwahaniaethu -Gwaith Cartref: Taflen wyrdd/oren/coch - Gwyrdd- Hyderus /Coch- angen cymorth -Dewis disgyblion
Asesu (Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu?) • Prawf sillafu -Cyfnwid papurau- asesu cyfoedion - Rhoi'r atebion ar y bwrdd gwyn -ateb anghywir- sillafu x3 - mynd dros dasgau wedi cwblhau- Hunan asesu
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? •Techneg Tawelu -Siarad yn dawelach i gael sylw -Clicio bysedd am dawelwch ** Manylion anghywir- "Dau ddeg chweched" (chwech ar hugain) TARFU- dim dwylo i fyny/ gorfod gofyn sawl tro am dawelwch a sylw SAESNEG- Cysondeb- dim atgyfnerthu Cymreictod Plentyn 3 Benywaidd: • Gweiddi 'Shut-up' • Siarad ar draws • Gorfod gofyn sawl tro i'r athro ailadrodd • "Omg beth yw'r words ma?" • Dim yn canolbwyntio ar ddysgu • Cwestiynu Cymreictod • "Flipping hell" • Rhwystredigaeth • Methu cadw fyny â chyflymder y wers. Plentyn 4 Gwrywaidd: • Gweiddi pa mor hawdd yw'r gwaith • "Come on it's easy" • ? Dim Herio? -Athro'n ceisio gweld ei dealltwriaeth drwy gwestiynu

-Ydy'r plentyn gallu esbonio? (Tacsonomeg Bloom?)

- Canu "Fi wedi gorffen"
- Plentyn heb wneud gwaith cartref
 - Athro'n ymateb yn niwtral
 - rhoi terfyn Newydd
- Athro- "Rheoli disgwyliadau gwers 4"
- Plentyn 3+4: eistedd blaen y dosbarth a chyfathrebu drwy'r wers

Atodiad III

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2016
Manylion y wers: Gwers 6 (14:30-15:10 ,gwers olaf) Saesneg, blwyddyn 9 Set 1. Tua 23 disgybl cymysg Lleoliad: Ystafell ddosbarth Macbeth Act 2, Scene 1 Soliloquy
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Taflenni wedi dosbarthu o flaen llaw -Disgyblion yn gwybod beth i wneud yn syth
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) - Cyfeirio at y wers ddiwethaf - Amcan y wers: 'Analyse and Annotate' -Uwchleuo ac anodi - Pwyslais ar TGAU -Sut mae'r gweithgaredd yn ei pharatoi at TGAU (Pwrpas pellach) - Hanner ffordd drwy'r wers- gweddill yr amcanion - Dechrau paragraff gan ddefnyddio PEEP (point, evidence, explain, polish)
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Cwestiynu am ystyr derminoleg -gosod cyd-destun - Trafodaeth fach rhwng darllen darnau o'r sgript -Sicrhau bod pawb yn deall - Cyfnodau byr o weithio'n annibynnol wedi cyfarwyddyd -ymweld yn gliriach wrth i'r athrawes atgyfnerthu'r hyn roeddent angen gwneud - Gofyn i bawb gychwyn ar eu paragraff cyn diwedd y wers - Pwyslais ar gronoleg/trefn (MPLI)
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?) Pawb wedi derbyn copi o'r sgript

- Gofyn iddynt gefnogi barn â thystiolaeth
- Rhoi cyfle i ddisgyblion a oedd yn ymddangos yn frwdfrydig i ddarllen
- Nod- “extend vocab” (defnyddio thesawrws)


Asesu (Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu?)

- Cwestiynu agored: Barn + dehongliad disgyblion
- Hunan asesu
- Asesu cyfoedion (Top Banana)

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

- Polisi 'Hands up'
- Pwy mae'r athrawes yn cwestiynu?(Diagram diwedd nodiadau)
- “Someone other than ‘Plentyn 5’”
- -Pan mae plentyn methu ateb cyfeirio'r cwestiwn at Plentyn 5 Gwrywaidd
- HIWMOR (art Costa)
 - Plant yn ymateb yn bositif
 - Cofio pethau



Atodiad IV

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 02/10/2019
Manylion y wers: Gwers 4 (11:50-12:40, gwers cyn cinio) Hanes, blwyddyn 9. Roedd tua 19 disgybl cymysg yn y wers. Tasg dyddiadur (asesu?)- Pyllau Glo Gwaith Cartref: 5 ffaith pwll glo y Gleision
Diwylliant ar lawr dysgu (Ydy'r disgyblion yn canolbwyntio ar ddysgu?) - Wrth i ddisgyblion gerdded mewn roedd rhaid iddynt edrych ar lun a osodwyd ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol a meddwl am ansoddair i'w ddisgrifio. - Gofyn i'r disgyblion adrodd yr hyn a ddigwyddodd yn y wers flaenorol.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r digwyddiad dysgu?) - Rhoddwyd taflen o wybodaeth o ffynonellau i'r disgyblion i gyflawni ei dyddiaduron - Gwirio fod disgyblion yn deall
Cyfarwyddyd (Ydy'r disgyblion yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) - Roedd yr athro o hyd yn gwirio os oedd disgyblion yn deall y dasg - Gwirio os oeddent yn cofio strwythur dyddiadur - Atgoffa o bolisi llaw i fyny.
Mynediad a her (Ydy pob disgybl yn gallu dilyn y digwyddiad dysgu? A gaiff pob disgybl ei herio?) - Nid oedd unrhyw wahaniaethu - Nid oedd herio uniongyrchol ar waith ychwaith
Asesu (Sut mae dealltwriaeth disgyblion cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad dysgu?) •Trafod MPLI -Plentyn 11 Benywaidd: Uwcholeuo yn ôl cod lliw MPLI -Hunan asesu
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Plentyn 4 Gwrywaidd:

- Colli amynedd wrth ddal llaw i fyny : Gweiddi “syr!”

Plentyn 9 Gwrywaidd:

- Tarfu ar wers
- Tynnu sylw at ei hun

Plentyn 10 Benywaidd:

- Dim yn gweld pwrpas i'r wers
- Angen rhywun i'w chymell o hyd
- Diffyg hyder yn gallu ei hun
- Pwyntiau clod (strategaethau gwobrwyo)
- Egwyddorion yr ysgol: Cymreictod/Dyfalbarhad/Parch
- Monitro ar lein
- Terminoleg ar waliau i'w cynorthwyo (rheolau gramadeg)

**Anodd arsylwi wrth gynorthwyo disgyblion.

Atodiad V

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Plentyn 2- Iaith y corff (Bl.9 ymarfer corfforol)

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>“What are your feelings regarding the experience?”</i>	Roeddwn yn teimlo'n ansicr wrth fynd i'r wers addysg gorfforol oherwydd dyma oedd y wers gyntaf i mi arsylwi fel rhan o Bontio 1. Hefyd nid dyma fy mhwno arbenigol ychwaith ac felly roeddwn yn poeni am osod y digwyddiad critigol yn ei chyd-destun yn gywir.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>“Can you list the aspects of the learning experience that went well?”</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i> <i>“What were the elements of the learning experience</i>	Yng nghyd-destun y wers a arsylwyd ar yr achos critigol ym 15 munud ola'r wers. Dyma'r adeg roeddent yn adfyfyrio a hunan werthuso ar eu perfformiad gan hefyd ystyried y camau nesaf er mwyn datblygu yn y wers nesaf. Nid oedd Plentyn 2 yn ymgymryd yn y broses ac yn cadw i'w hun trwy gydol y wers. Ni fu neb yn ei grŵp ei chymell i ymuno gyda'r drafodaeth ac ni fuon nhw ei hystyried wrth ei olwg. Cydnabuwyd hi ar ddiwedd y dasg pan oedd angen cyflwyno'r ffurflenni i'r athrawes cyn gadael y wers.

<i>that were disappointing?"</i>	
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	Fe wnaeth yr athrawes y wers yn gynhwysol iawn gan sicrhau fod pawb yn ymgymryd yn y gweithgaredd, gan roi tasgau i ddisgyblion heb git hefyd. Bu l'r athrawes adnabod diffyg cyfraniad Plentyn 2 gan geisio ei chymell i fod yn rhan o'r drafodaeth. Dyma arfer dda o gydnabod a cheisio cymell disgyblion i fod yn fwy parod i gyfrannu.
Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i>	O bosib fod angen ymyrryd- angen deall diffyg cymhelliant am y pwnc Adborth- Llais y disgybl (Erthygl 12) Llenyddiaeth: Iaith y corff Agweddau negyddol at bynciau tu hwnt i rai craidd? Ymyrraeth

Atodiad VI

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Plentyn 4 (gwyddoniaeth bl.9 set 1)

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>“What are your feelings regarding the experience?”</i>	Roedd yn ddiddorol gweld sut oedd yr athro yn ymateb i'r disgybl. Roeddwn yn hynod gyffrous i arsylwi'r wers ond hefyd yn bryderus wrth edrych am achos beirniadol. Roeddwn braidd yn betrus wrth i Plentyn 4 dechrau tarfu ar y wers. Hefyd roedd y wers cyn cinio a nifer o ddisgyblion yn awyddus am doriad.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> <i>“Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?”</i> <i>“Can you list the aspects of the incident in the context of learning?”</i>	Roedd Plentyn 4 yn arddangos gallu cryf a dealltwriaeth o nod ac amcanion y wers gan gyflawni tasgau yn ddiymdrech. Serch hyn roedd Plentyn 4 yn tarfu ar y wers ac yn aflonydd trwy gydol y wers gan effeithio ar ddysgu'r disgyblion eraill.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i>	Er i Plentyn 4 darfu ar y wers roedd yn barod iawn i esbonio i eraill sut i wneud y dasg (er mewn tŷn braidd yn nawddoglyd). Credaf er i'r athro gwestiynu ei dealltwriaeth, nid oedd y wers yn cynnig her iddo o bosib. Canlyniad posib i hyn felly roedd ei ymddygiad a'i ymagwedd wael/heriol

<i>“Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?”</i> <i>“What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?”</i>	Defnydd o asesu ffurfiannol (cardiau fflach A/B/C/ Hunan asesu/Asesu cyfoedion)
Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>“Beth yw eich atebion posibl i’r mater a nodwyd?”</i> <i>“Beth y gellid ei wneud nesaf?”</i> <i>“What are your possible solutions to the issue identified?”</i> <i>“What could be done next?”</i>	- Cyflwyno tasgau estynedig/ fwy heriol - Mwy o wahaniaethu Llenyddiaeth: - Sut mae cymorth cyfoedion yn hybu ac yn/neu’n lleihau dysgu (SGAFFALDIO) - Gwahaniaethu a disgyblion MATH - Tacsonomeg Bloom - Angen cadw disgyblion fel Plentyn 4 ar dasg er mwyn cael y gorau allan ohonynt a cheisio lleihau ei ymagwedddau negyddol ac aflonyddgar - O bosib cyflwyno strategaethau disgyblu a thawelu i’r wers.

Atodiad VII

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Polisi llaw i fyny (Saesneg bl.9 set 1)

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>“What are your feelings regarding the experience?”</i>	Roeddwn yn hynod o betrus am fynd i'r wers Saesneg oherwydd Cymraeg yw fy iaith gryfaf. Roeddwn yn hynod o ymwybodol o'r ffaith fydd rhai o'r disgyblion yn uwch o ran ruglder iaith yn y wers na fi. Dyma wers olaf y diwrnod ac roeddwn yn gyffrous i weld sut oedd a) y plant yn ymateb ac yn gweithio a b) os oedd yr athrawes wedi cynllunio'r wers mewn modd arbennig/wahanol oherwydd hyn.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> <i>“Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?”</i> <i>“Can you list the aspects of the incident in the context of learning?”</i>	O fewn y 10 munud gyntaf gofynnodd yr athrawes gwestiwn ac yn syth roedd rhaid iddi atgoffa'r disgyblion/atgyfnerthu'r rheol “Hands up”. Dim ond unwaith roedd rhaid i'r athrawes atgyfnerthu'r rheol yma. Hefyd roedd un disgybl o hyd eisiau ateb ac felly gofynnodd yr athrawes disgybl arall (a oedd heb roi llaw i fyny) cyn rhoi cyfle i'r disgybl a'i law i fyny.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> <i>“Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau</i>	(Plentyn 4)- Tarfodd llai ar y wers- ai o ganlyniad i strwythur mwy llym a chaeedig y cwestiynu o'i gymharu ag deilliannau ffurfiannol gwersi cynt? Mewn gwrs 50 munud gofynnodd yr athrawes tua 7-9 cwestiwn a holodd 6 disgybl gan gyfeirio at un disgybl pan nad oedd disgybl arall gallu ateb y cwestiwn a ofynnwyd iddi. **O bosib angen ystyried strategaeth o asesu dealltwriaeth pawb.

<i>addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?"</i> <i>"What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i>	Fe wnaeth yr athrawes rannu'r wers yn nodau ac amcanion mewn dull cam wrth gam, roedd hyn yn effeithiol gan adael llai o le i wneud camgymeriadau wrth orlwytho disgyblion â gwybodaeth.
Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>"Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?"</i> <i>"Beth y gellid ei wneud nesaf?"</i> <i>"What are your possible solutions to the issue identified?"</i> <i>"What could be done next?"</i>	• Cyflwyno strategaethau asesu ffurfiannol e.e byrddau gwyn, cwis • O bosib cyflwyno ffyn loli er mwyn cael fwy o amrywiaeth yn y disgyblion sy'n ymateb i gwestiynau • Os mae disgybl yn rhoi llaw i fyny ac yn ateb cwestiwn o bosib cyflwyno strategaeth llaw i fyny unwaith? Llenyddiaeth: • Asesu ar gyfer dysgu • Ffurfiannol a Chrynodol • Dylan Wiliam -Classroom experiment -ymateb disgyblion MATH • Art Costa • Wrth sicrhau fod Plentyn 4 ar dasg/waith o hyd= llai o darfu <u>*** Defnydd yr athrawes o Hiwmor</u>

Atodiad VIII

Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA)

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 02/10/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Plentyn 10 (Hanes bl.9)

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>“What are your feelings regarding the experience?”</i>	Roeddwn yn dod tuag at ddiwedd cyfnod arsylwi erbyn y wers yma ac wedi arsylwi 9 wers arall flaenorol felly roedd ychydig o hyder gen i am yr hyn roeddwn fod i arsylwi a'r hyn o bosib fydd yn ddigwyddiad critigol.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> <i>“Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?”</i> <i>“Can you list the aspects of the incident in the context of learning?”</i>	Tasg creu dyddiadur person yn y pyllau glo. Roedd Plentyn 10 wedi anghofio ei llyfr Hanes, felly wnaeth yr athro rhoi nodyn yn y llyfr cyswllt. Newidiodd agwedd y disgybl yn syth, nid oedd diddordeb ganddi bellach i wneud y dasg na'r gallu i gymell ei hun i lwyddo. Roedd rhaid ymyrryd a'i chymell wrth gadw arni i wneud Gwaith. Roedd hi'n gwneud/ysgrifennu darn ac wedyn eisiau i mi ddarllen e, wedyn roeddwn yn ei chwestiynu beth oedd y camau nesaf/ neu beth ddylai ysgrifennu nesaf. Erbyn diwedd y wers roedd y disgybl wedi cyflawni taflen A4 o waith. Yn ôl yr athro roedd hynny yn fwy nag arfer.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i>	Dosbarthwyd taflenni ffynonellau er mwyn cynorthwyo'r disgyblion gyda'r dasg. Roedd hyn yn effeithiol wrth alluogi'r plant i blethu ffeithiau a meddylfryd creadigol i gyflawni'r dasg yn llwyddiannus.

<i>“Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?”</i> <i>“What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?”</i>	
Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>“Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?”</i> <i>“Beth y gellid ei wneud nesaf?”</i> <i>“What are your possible solutions to the issue identified?”</i> <i>“What could be done next?”</i>	• Roedd angen cymell Plentyn 10 yn aml - O bosib angen rhoi mwy o gymorth i ddisgyblion sydd ddim gyda'r gallu i i ysgrifennu am adegau hir - Cyflwyno strategaethau cam wrth gam, directed study Llenyddiaeth: * Ymyrraeth -Pryd? • Cymhelliant